


Llanwnda

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 4.1 milltir (6.6 km) 2 awr

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio)

CYMERIAD: Cerdded gweddol hawdd, esgyniad/disgyniad eithaf serth yng Nghwm Felin, mwdlyd iawn mewn manau, golygfeydd gwych o'r arfordir, da byw, 0.6 milltir (1.0 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Morloi • llamhdyddion • blodau gwyllt • pentref ac eglwys hynafol Llanwnda • Carregwastad - pwynt goresgyniad y Ffrancod • Fferm Trehowel - pencadlys y cadfridog Ffrengig Tate

ALLWEDD

- Llwybr Cylch
- Llwybr Arforddir Sir Benfro
Llwybr Cenedlaethol
- Llwybrau Cyhoeddus
- P** Parcïo
- Safle Bws

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Llwybr yr Arfordir
- Cadwch at y Llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu



Llanwnda

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr

Pellter: 4.1 milltir (6.6 km)

Cludiant cyhoeddus: *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio).

Cyfeirnod map: SM922399

Diolch i'r golygfeydd gwyllt a gwych o Ben-caer mae unrhyw daith ar y pentir yn brofiad gwefreiddiol. Mae'n dirwedd drawiadol a grëwyd gan ddiwyddiadau daearegol dramatig rhwng 500 a 440 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Bryd hynny, roedd llosgfynyddoedd yn weithgar yn yr ardal ac fe oerodd y llifoedd lafa i ffurfio creigiau igneaidd caled iawn. Mewn mannau, ni chyrhaeddodd yr ymchwydd folcanig o graig dawdd yr arwyneb, gan oeri yn araf o dan y ddaear.

Dros filiynau o flynyddoedd, mae'r ymwithiadau hyn wedi gwrthsefyll erydiad i ddod yn glegyr caregog - Garn Fawr, Y Garn, Garn Gilfach a Garnwnda - sy'n gefndir i'r daith hyfryd hon.

Roedd y clegyr yn bwysig i gymunedau cyntaf yr ardal. Mae yna feddrodau Neolithig ar Garn Gilfach a Garnwnda ac ar gopa Garn Fawr mae yna fryngaer Oes Haearn.

Pwynt Carreg Wastad oedd y lleoliad ar gyfer un o'r digwyddiadau mwyaf cyfareddol yn hanes Sir Benfro - goresgyniad y Ffrancod yn 1797. Dringodd byddin anffortunos y clogwyni, dan arweiniad Americanwr o'r enw Tate, gan ddiogelu Fferm Trehowel fel ei phencadlys.

Yn y fferm, daeth y milwyr o hyd i stoc dda o ddiod a oedd yn barod ar gyfer

priodas. Felly, roedden nhw'n feddw am lawer o'r amser y buont yn yr ardal, cyn ildio yng Ngwdig, gerllaw, dau ddiwrnod yn ddiweddarach.

Un o'u ychydig o ymgyrchoedd 'milwrol' oedd ymosodiad ar Eglwys Sant Gwyndaf yn Llanwnda a dwyn plât wedi ei wneud o arian.

Ar yr arfordir, treuliwch amser yn chwilio'r môr am ddolffiniaid a llamhidyddion - yn aml, gellir eu gweld yn pasio'n agos i Ben-caer. Chwiliwch hefyd am forloi llwyd sy'n aml â chymaint o ddi-ddordeb yn y bobl sy'n pasio heibio ag sydd gan y bobl sy'n pasio heibio ynddyn nhw.